**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/LG/2874/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Gorffennaf 2014

Annwyl Christine

Yn ystod fy ymddangosiad yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 25 Mehefin, cytunais i ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth ychwanegol.

Mewn perthynas a'r uno posibl o Awdurdodau Lleol, gofynnodd y Pwyllgor am y sefyllfa lle etifeddodd un Cyngor ddiffyg ariannol o un arall. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn digwydd. Mae dyletswyddau statudol hir-sefydlog ar Brif Awdurdodau i gyflwyno cyllideb gytbwys bob blwyddyn. Mae'r dyletswyddau hyn yn eu hatal rhag bod mewn sefyllfa lle maent yn mynd i ddiffyg ariannol. Yn yr un modd, gall Awdurdodau dim ond mynd i mewn i trefniadau benthyca lle maent wedi gwneud darpariaeth glir ar gyfer ad-dalu eu benthyciadau.

Fel rhan o fonitro y grant i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer gwefannau, bydd fy swyddogion yn ysgrifennu at bob Prif Gyngor mis nesaf i gasglu gwybodaeth am nifer y Cynghorau Tref a Chymuned a fanteisiodd ar y cyllid sydd ar gael iddynt. Byddaf yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi cyn gynted ag y bo modd.

O ran seddi Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi bod yn wag yn hirdymor, byddaf hefyd yn ysgrifennu at Brif Gynghorau er mwyn cael gwybodaeth gywir gyfredol. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn yr Hydref. Yn y cyfamser, mae gwybodaeth am seddi gwag mewn etholiadau cyngor cymuned o 2012/13 ar gael ar dudalen 105 o'r adroddiad gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o Gynghorwyr Llywodraeth Leol a Ymgeiswyr yn dilyn etholiadau Mai 2012, atodaf dolen i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/local-government-candidates-survey/?skip=1&lang=cy

Hefyd, atodaf dolen i Adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth. Mae tudalen 15 yn cynnwys tabl o ystadegau oedran, rhyw ac ethnigrwydd.

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/expert-group-report/?lang=cy

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business